



# Adroddiad Cydymffurfio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**Ein gwaith ar hawliau plant ac esboniad o gyfraith CCUHP yng Nghymru**

## Trosolwg

Mae'r ddogfen yma'n esbonio beth yw CCUHP a pham ei fod yn bwysig yng Nghymru.

Mae'n dweud sut mae pethau wedi datblygu yng Nghymru a sut mae gennym ni gyfraith ynglŷn â hawliau plant.

Mae'n rhoi esboniad bach o beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud a beth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud. Mae hefyd yn disgrifio'r mathau o bethau sydd wedi'u gwneud i sicrhau bod pobl yn meddwl am hawliau plant.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am hawliau plant yng Nghymru, ewch i:
www.hawliauplant.cymru

neu e-bost:
childrenandyoungpeoplesrights@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015

# Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei ffurfio gan Weinidogion, a Phrif Weinidog Cymru yw pennaeth Llywodraeth Cymru.

Mae gan bob Gweinidog faes gwahanol y mae'n gyfrifol amdano e.e. iechyd, addysg a'r economi.

Mae staff ar draws Cymru'n gweithio i'n cefnogi ni i wneud penderfyniadau.



**Gweinidogion Cymru ydyn ni.**
Rydyn ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael y bywydau gorau posibl. I wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd, mae angen i bawb roi sylw i hawliau plant yn eu gwaith.

Mae'r **Adroddiad Cydymffurfio** yma'n dweud wrthych chi am y gwaith rydyn ni'n ei wneud ac am **CCUHP.**

## Beth yw CCUHP?

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw **CCUHP**.

Rhestr ydyw o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc, pwy bynnag yr ydych chi, lle bynnag rydych chi'n byw neu beth bynnag rydych chi'n credu ynddo. Maen nhw'n berthnasol i chi nes eich bod chi'n 18 oed.

Mae CCUHP yn rhestru 42 o erthyglau – hawliau sydd gan blant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.

Mae yna fwy o wybodaeth am eich hawliau ac erthyglau CCUHP yma: www.hawliauplant.cymru

## CCUHP yng Nghymru

Yn 2004, gwnaethon ni benderfynu gwneud yn siŵr ein bod ni'n meddwl am hawliau plant ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Fe gymeron ni ni gymryd pob un o'r hawliau yn CCUHP a'u trefnu nhw mewn 7 maes gwahanol, o'r enw **Y Saith Nod Craidd.**

**1 Blynyddoedd cynnar**
*Mae gen i bopeth sydd ei angen arna' i i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i mi!*

**2 Addysg a dysgu**
*Dwi'n gallu cymryd rhan, mwynhau dysgu a chael yr addysg orau bosibl.*

**3 Iechyd, rhyddid rhag camdriniaeth a bwlio**
*Mae gen i fywyd iach ym mhob agwedd, gan gynnwys iechyd emosiynol, a dwi'n cael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth.*

**4 Chwarae, chwaraeon, hamdden a diwylliant**
*Dwi'n mwynhau chwarae ac yn cael cyfleoedd i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol efo fy ffrindiau.*

**5 Cyfranogiad a pharch**
*Dwi'n cael dweud fy nweud ac yn cael fy nhrin â pharch.*

**6 Cartref diogel a chymuned ddiogel**
*Mae fy nghartref yn lle diogel i fyw ynddo ac mae gen i lawer o bethau i'w gwneud sy'n agos at lle dwi'n byw.*

**7 Rhyddid rhag tlodi**
*Dydw i ddim yn gorfod byw mewn tlodi ac mae gennym ddigon o arian i gael y pethau sydd eu hangen arnom ni.*

## Beth rydyn ni wedi’i wneud i hybu hawliau plant

Rydyn ni eisiau i bawb fwynhau eu hawliau felly rydyn ni wedi rhoi pethau ar waith, fel:

- **Comisiynydd Plant Cymru** – Mae’r Comisiynydd yn eiriolwr dros blant a phobl ifanc. Mae’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae yna fwy o wybodaeth yma: www.complantcymru.org.uk
- **Cynghorau Ysgol** – Mae’n rhaid i bob ysgol fod â chyngor ysgol fel bod disgyblion yn cael llais mewn rhedeg eu hysgol.
- **Ardaloedd chwarae** – Mae’n rhaid i bob cyngor yng Nghymru wneud yn siŵr bod yna ddigon o leoedd i chwarae.
- **Nyrsys ysgol** – Mae’n rhaid i bob ysgol uwchradd yng Nghymru gael  nyrs.
- **Cwnselwyr** – Mae’n rhaid i bob ysgol uwchradd gael cwnselwyr i helpu disgyblion i gael iechyd meddwl da.
- **Cynllun Tlodi Plant** – Mae hwnyn helpu i wneud yn siŵr ein bod ni’n gwneud popeth y gallwn ni i gefnogi plant a theuluoedd sy’n byw mewn tlodi.





## Yng Nghymru, mae gennym ni gyfraith ar gyfer hawliau plant

Yn 2011, gwnaethon ni benderfynu cymryd cam ychwanegol a gwneud CCUHP yn gyfraith yng Nghymru.

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011** yw’r enw ar hwn.

Mae’r Mesur wedi newid ein ffordd o weithio. Mae’n golygu bod yn rhaid i ni ystyried hawliau plant ym mhopeth rydyn ni’n ei wneud.

Mae’r gyfraith yno i newid y ffordd rydyn ni a’r staff sy’n ein helpu i wneud gwaith, i feddwl am hawliau plant a sut mae’r pethau rydyn ni’n eu gwneud yn effeithio ar eich hawliau chi.

Mae’r Mesur yn dweud bod yn rhaid i bob Gweinidog feddwl am hawliau plant pan rydym yn gwneud penderfyniadau. ‘Sylw dyledus’ yw’r enw ar hyn. Mae’r penderfyniadau’n gallu bod am unrhyw beth – o adeiladu ffyrdd i benderfynu sut mae ysbytai’n trin plant.



## Y Cynllun Hawliau Plant

Er mwyn esbonio sut rydyn ni'n gwneud y pethau y dylen ni eu gwneud, ac yn meddwl am hawliau plant a phobl ifanc, rydyn ni wedi cyhoeddi Cynllun Hawliau Plant.

Mae'r Cynllun:

- yn esbonio'r pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud, fel gwneud yn siŵr bod staff wedi'u hyfforddi a'u bod nhw'n dilyn y rheolau, i wneud yn siŵr ein bod ni'n ystyried hawliau plant.
- yn esbonio ein rolau a'n cyfrifoldebau wrth wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn manteisio ar eu hawliau.

Mae'r Cynllun hefyd yn dweud bod yn rhaid i ni gyhoeddi Adroddiad Cydymffurfio.


Mae'r Adroddiad Cydymffurfio'n esbonio sut rydyn ni'n gwneud beth y mae'r Cynllun yn dweud y dylen ni ei wneud, ac yn esbonio sut mae pethau'n gweithio.

## Pwy sy'n gwneud beth?

Mae gennym lawer o wahanol bobl yn cydweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn meddwl am eich hawliau:

- **Gweinidogion Cymru**
  Mae'n rhaid i bob Gweinidog Cymru feddwl am eich hawliau a CCUHP yn ei holl waith ac wrth wneud penderfyniadau.
- **Staff Llywodraeth Cymru**
  Mae llawer o wahanol bobl yn gweithio i Lywodraeth Cymru. Maen nhw'n chwarae rhan bwysig wrth rhoi gwybodaeth i Weinidogion a'u helpu i wneud penderfyniadau.
- **Tîm Gweithredu'r Mesur**
  Mae'r tîm yma'n cefnogi Gweinidogion Cymru a staff â gwybodaeth a chyngor ar eich hawliau. Maen nhw'n gwneud hyn trwy'r wefan, cefnogi staff, rhoi hyfforddiant, gwneud adnoddau a llawer o ffyrdd eraill.
- **Grŵp Gweithredu Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru**
  Mae'r grŵp yma'n cynnwys gwahanol bobl sy'n eiriolwyr dros hawliau plant.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pobl sy'n cael eu pleidleisio o bob rhan o Gymru, o wahanol bleidiau gwleidyddol, yw Aelodau'r Cynulliad. Mae'n nhw'n gwirio ac yn holi Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut rydyn ni'n meddwl am eich hawliau ac yn gofalu am bob plentyn a pherson ifanc.



# Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) – beth yw hwn?

Pan rydyn ni’n gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, er enghraifft polisïau, cyfreithiau neu brosiectau, rydyn ni’n cwblhau Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA).

Mae cwblhau CRIA yn ffordd y gallwn ni ddangos ein bod ni wedi meddwl am blant a phobl ifanc a’u hawliau nhw cyn i ni wneud penderfyniad.

Nid yw CRIA yn golygu bod yn rhaid newid penderfyniad ond mae’n rhaid i ni brofi ein bod ni wedi meddwl am sut bydd y penderfyniad yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

Rydyn ni’n defnyddio’r CRIA i:

- ddangos ein bod ni wedi meddwl am hawliau plant cyn i ni wneud ein penderfyniadau
- rhoi gwybodaeth well i ni cyn i ni wneud ein penderfyniadau
- dod o hyd i ffyrdd o gael effeithiau mwy positif ar ganlyniadau
- dod o hyd i ffyrdd o leihau’r effeithiau negyddol ar blant, pobl ifanc a’u teuluoedd.

Mae CRIA yn helpu Gweinidogion i brofi eu bod wedi meddwl am eich hawliau.

Mae’r Asesiadau ar gael i unrhyw un sydd eisiau eu gweld.

Mae mwy o Asesiadau’n cael eu cwblhau nag erioed o’r blaen – mae hyn yn golygu bod pobl yn meddwl mwy am hawliau plant nawr nag erioed o’r blaen.



Os ydych chi’n meddwl bod rhywun heb feddwl am hawliau plant, gallwch chi ofyn am CRIA neu gallwch chi gysylltu â ni â’ch sylwadau yma:
gov.wales/contact_us/makeacomplaint/?skip=1&lang=cy



## Enghraifft o broses CRIA

Roedden ni eisiau cyflwyno cyfraith i wneud yn siŵr bod yna ffyrdd hawdd i gyrraedd lleoedd ar droed neu ar feic. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw’r enw ar hon.

**Fe gwblhawyd CRIA ac fe gafodd ei gyhoeddi.**

Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y CRIA yn eithaf da ond roedd o’r farn nad oedd yna ddigon am ddiogelwch personol plant ar lwybrau a fyddai’n cael eu defnyddio, fel goleuadau ar y llwybrau.

O ganlyniad, gwnaethon ni benderfynu newid y rheolau dan y gyfraith fel y gallai plant a phobl ifanc gael mwy o gyfle i ddweudsut gallai’r llwybrau fod yn well.

Mae hyn wedi golygu bod gan blant a phobl ifanc lais ac y byddan nhw’n teimlo’n fwy diogel wrth ddefnyddio’r llwybrau.



## Codi ymwybyddiaeth – rhoi gwybod i bobl

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni geisio gwneud pawb yng Nghymru'n ymwybodol o CCUHP. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn llawer o ffyrdd, ond dyma'r tair brif ffordd:

**Darparu gwahanol fathau o wybodaeth** – rydyn ni'n helpu pobl i ddeall CCUHP a hawliau plant. Mae gennym ni gardiau post, posteri, cynlluniau gwersi, taflenni gweithgareddau a llawer mwy.

**Hyfforddiant CCUHP** – rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yna hyfforddiant ar gyfer ein holl staff ac eraill, fel gweithwyr ieuenctid a'r heddlu.

Mae mwy na 3,000 o staff Llywodraeth Cymru wedi gwneud ein hyfforddiant e-ddysgu ar hawliau plant.

**Cyfranogiad** – rydym yn rhoi arian i lawer o sefydliadau plant fel eu bod yn gallu'ch helpu i ddweud eich dweud ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd chi.

**Engrhaifft:**

**Cymru Ifanc** – rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu dweud eu dweud a'n bod ni'n gwrando er eu barn.


www.cymruifanc.cymru

## Gwybodaeth

Rydyn ni o'r farn ei bod hi'n bwysig deall bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Rydym yn casglu gwybodaeth i'n helpu ni wneud hyn. Un ffordd rydyn ni'n gwneud hyn yw trwy'r **Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru.**

Mae hwn wedi'i seilio ar themâu o'r saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc.



**Enghraifft** – rydyn ni'n edrych ar nifer y plant sy'n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd a nifer y plant sydd wedi defnyddio cyfleusterau ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.





## Cydweithio

Rydyn ni'n gwybod nad ydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn mwynhau eu hawliau ar ein pennau ein hunain. Felly rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau gwahanol. Er enghraifft:

- **Comisiynydd Plant Cymru** – sy'n mynnu ein bod yn cadw at yr hyn rydym wedi addo ac yn dweud wrth Lywodraeth Cymru sut hwyl y mae'n meddwl ein bod yn cael ar bethau.
- **Grŵp hawliau** – pobl y tu allan i Lywodraeth Cymru sy'n ein helpu ni i drafod y ffordd orau i wneud pethau ac yn awgrymu syniadau o wahanol leoedd.
- **Mudiadau gwirfoddol** – maen nhw'n ein helpu i ddeall sut mae pethau'n gweithio'n lleol ac yn rhoi gwybod i ni sut hwyl rydym yn cael ar bethau.
- **Awdurdodau lleol** – maen nhw'n aml yn darparu gwasanaethau ar lefel leol felly maen nhw'n gallu dweud wrthon ni sut mae ein polisïau'n gweithio a dweud wrthon ni os oes yna unrhyw broblemau.

## Y camau nesaf

Rydym yn edrych ar ffyrdd i wella ein ffyrdd o weithio trwy:

- wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am CCUHP.
- hyfforddi mwy o bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a throstyn nhw.
- gweithio'n fwy gydag eraill i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyfleu'r neges i bawb – mae hawliau plant yn bwysig.

**Diolch!**

